

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

**Nos Iau 17 Medi 2020 am 18.30**

*Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

## **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Huw P Jones  
Y Cynghorydd Mary Hayes  
Y Cynghorydd Gabrielle Wyn  
Y Cynghorydd Iwan Hywel  
Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd Dafydd Roberts  
Y Cynghorydd Mair Leverett  
Y Cynghorydd Jacob Milner

### **1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith, Dafydd Owen, Richard Fraser-Williams, Mair Pierce Owen ac Angharad Williams.

Dechreuwyd y cyfarfod gyda newyddion trist ofnadwy am farwolaeth y diweddar Cyng. Dafydd Jones. Ymgwymerwyd munud o dawelwch i feddwl am Dafydd a'i deulu ar yr adeg anodd hon.

## **2. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2020.

## **3. Materion yn codi o'r cofnodion**

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – y Clerc i ddanfôn yr opsiynau ymlaen i Cyng. Mair Leverett, a'r Cynghorydd i fesur y safle. Os yn bosib, Cyng. Richard Fraser-Williams i ymweld a'r safle i weld pa opsiwn yw'r mwyaf addas.
- 3.2** Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd y byddai Cyng. Iwan Hywel a Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r safleoedd diwedd y Hydref pryd fydd nosweithiau yn tywyllu.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – y Clerc wedi derbyn ymateb gan Iwan ap Trefor. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn ysgrifennu llythyr cryf ar ran y Cyngor. Adroddwyd fod yno llawer o gwynion am 'near misses' gan y cyhoedd ar gwefannau cymdeithasol. Nodwyd

- Cyng. Gabrielle Wyn fod trafferthion gyda'r llwybr lawr am yr ysgol a'i bod llawer rhy wlyb, felly mae'r plant gorfod cerdded ar hyd y ffordd.
- 3.4 Ciciwr Calon Tregarth - Cyng. Dafydd Owen a Cyng. Huw Jones i edrych am safleoedd addas ar gyfer y ddau arwydd arall.
  - 3.5 Ciciwr Calon Neuadd Talgai – y postyn ar gyfer yr offer wedi cyrraedd. Y Clerc i drefnu i'r postyn gael ei rhoid ar y safle cyn gynted a bu'r modd.
  - 3.6 Llecyn Tir, Bont Twr –Disgwyl ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group cyn mynd ymlaen i ddanfôn y ffurflen, y rheolwr ar cyfnod seibiant oherwydd cofid-19 (furlough). Clerc i gael diweddariad.
  - 3.7 Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – y Clerc i holi Cyng. Dafydd Owen am ddiweddariad.
  - 3.8 Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy - Nid yw'r palmant newydd ger y fynediad yn weladwy iawn i gyrrwyr ceir, ac mae'r bolard yno wedi torri. Y Clerc eisoes wedi danfôn ebost ynglyn a'r mater. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
  - 3.9 Nodwyd fod tir ger eiddo Y Gornel ar allt Cerrigllwydion wedi gael ei ffensiō tuag at y palmant – Cyng. Dafydd Owen i rhoi diweddariad ar y mater yn y cyfarfod nesaf.
  - 3.10 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai – Y Clerc a'r Cynghorwyr lleol i wneud ymholiadau i weld pwy yw'r perchennog.
  - 3.11 Adroddwyd fod dim arwyddion ar hyd Llwybr Rhif 3 – Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau. Y Clerc i gael diweddariad.
  - 3.12 Tafarn Pant yr Ardd wedi gael tenant newydd, y dafarn nawr yn edrych am rheolwr newydd.
  - 3.13 Gwasanaeth Bws – gwasanaethau cyfyngiedig yn ystod y clo fawr – adroddwyd fod y gwasaneth llawn bellach wedi dychwelyd.
  - 3.14 Materion gyda draeniau Mynydd Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi bod yn delio gyda'r mater hwn, y Clerc i holi am ddiweddariad.

#### 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Medi 2020'

**Cyflwynwyd:** Howard Huws, Cylch yr Iaith – Gor-dwristiaeth yng Nghymru – y Clerc i edrych yn ôl ar gohebiaeth tebyg yn y y gorffennol ac hefyd ymateb y Cyngor, a'i danfôn ymlaen at bawb drwy ebost.

**Cyflwynwyd:** Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau – gwahodd Beca i'r cyfarfod nesaf.

**Cyflwynwyd:** David Roberts, Cyngor Cymuned Llandwrog – Gwasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd - dim sylw ar hyn o bryd.

**Cyflwynwyd:** Holiadur – Y Gymraeg a gweithio o gartref – pawb i gwblhau'r holiadur, os yw'n berthansol.

#### 5. Cyfansoddiad Canolfan Tregarth

Gofynnodd Cyng. Huw Jones am yr eitem hon ar yr agenda. Mae'r Cynghorwr yn aelod o'r pwyllgor, ynghyd a Cyng. Dafydd Owen ac Angharad Williams. Mae'r cyfansoddiad presennol yn dyddio o'r adeg lle adeiladwyd y Ganolfan yn yr 1980au ac mae angen adnewyddu'r ddogfen a thelerau. Mae amgylchiadau personol yr ymddiriedolwyr presennol yn golygu fod angen iddynt drosglwyddo'r cyfrifoldeb ymlaen cyn gynted a phosibl, ac felly angen edrych am ymddiriedolwyr newydd. Trafodwyd y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned yn fod yn unig ymddiriedolwr i'r Ganolfan. Cytunwyd y byddai

Cyng. Mary Hayes yn holi Pwyllgor Neuadd Goffa Mynydd Llandegai am gopi o'i cyfansoddiad nhw, ac i gynnwys yr eitem hon ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 6. Gwaith y mis

- 6.1** Llifogydd diweddar yn Mynydd Llandegai – Y Clerc i holi Cyng. Dafydd Owen am diweddariad.
- 6.2** 'Ash Dyeback' o fewn y gymuned– Cytunwyd y byddai Cyng. Jacob Milner yn danfon fwy o wybodaeth i'r Clerc, a'r Clerc i gylchredeg a'i rannu ar cyfryngau cymdeithasol.
- 6.3** Problemau gyda gyrrwyr bws methu gweld pobl yn yr arhosfan bws ger Pant yr Ardd oherwydd nifer fawr o geir yn parcio ar hyd o ffordd. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am marcio'r ffordd i wneud yr arhosfan yn fwy weladwy ac i atal pobl rhag barcio yn y man hwn.
- 6.4** Adroddwyd fod llawer o graffiti ar llochesi bws yn yr ardal (Llandygai a Tregarth) – Y Clerc i gael rhywun i lanhau/paentio. Nodwyd hefyd fod llawer o graffiti yn Twnel Tywyll, y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd ac yr Heddlu.

## 7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Dim cyfarfodydd wedi cymeryd lle ers y cyfarfod diwethaf.

## 8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

- 8.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Awst. Derbyniwyd yr adroddiad.
- 8.2** Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn fisol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

## 9. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

G Williams – Toriad cyntaf	£2988.00
Peirianeg ILD – Stand Ciciwr Calon Llandygai	£168.00
Tir a Choed – Torri a thacluso Parc Meurig	£120.00

## 9. Penderfyniadau Cynllunio

**C15/0966/16/MG**

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0571/16/HY**

Llys y Gwynt, Bangor  
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo  
ac heb eu goleuo  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn  
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,  
adeilad derbynfa, a chreu 2  
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio  
ffyrdd mynediad cysylltiedig a  
meysydd parcio, tirweddu a gwaith  
cysylltiedig eraill.

**Penderfyniad:** Holl ymghynghoriadau  
drosodd

**C19/0918/16/LL**

Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth  
Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2  
uned wyliau ynghyd a gosod tanc  
septig newydd a pharcio

**Penderfyniad:** Cais wedi'i gofrestru

**C20/0267/16/DT**

Bryn Llys, Pen Y Groes, Tregarth,  
Estyniad cefn unllawr.

**Penderfyniad:** Ar y gweill

**C20/0330/16/LL**

3, Sling Cottages, Sling,  
Newid defnydd sied ardd ar gyfer  
defnydd busnes (cynhyrchu, storio a  
phacio medd)

**Penderfyniad:** Caniatwyd gydag  
amodau

## 10. Ceisiadau Cynllunio

**C20/0576/16/AC**

Clwb Criced Bangor, Llandygai  
Diwygio amod rhif 2 (yn unol a'r  
cynlluniau), 4 (parcio) a 10 (tirlunio) o  
ganiatad rhif C19/0105/16/LL ar  
gyfer codi clwb criced newydd

**Penderfyniad:** Dim sylw

**C20/0503/16/DT**

Ty Fferm Tanrhiw Tregarth  
Cais deiliad ty ar gyfer codi estyniad  
ochr unllawr

**Penderfyniad:** Dim sylw

**C20/0582/16/DT**

Bryn Gwynedd, 1 Gefnan, Mynydd  
Llandegai  
Estyniad un llawr ar dalcen yr eiddo  
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad,  
ond angen sicrhau defnydd o  
deunyddia lleol/naturiol os yn bosib.

**C20/0606/16/DT**

Cae Herfyn, Tal Gae, Tregarth  
Codi modurdy a swyddfa gartref o  
fewn cwrtil preswyl.

**Pendefyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**15. Unrhyw fater brys arall**

Dim.